



FFURFLEN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARHOLWR ALLANOL

I'ch helpu chi i gwblhau'r Adroddiad hwn trowch at y *Ffurflen Adroddiad Blynyddol – Canllaw i Arholwyr Allanol*. Mae'r Canllaw a'r Ffurflen hon ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/rep/index.html>. Mae ffurflenni gwybodaeth am ffioedd a hawlio ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/fees/index.html> .

	I'w lenwi gan yr Arholwr Allanol:		
Enw'r Arholwr Allanol:	Yr Athro Dafydd Johnston		
Sefydliad Cartref / Cyflogwr yr Arholwr Allanol:	Prifysgol Cymru		
Y Rhaglen a / neu'r Pynciau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	BA yn y Gymraeg		
Y Flwyddyn Academaidd / Cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	2014/15	Dyddiad yr Adroddiad:	29.6.15

Gofynnir i'r Arholwr Allanol ateb yn y manau a ddarperir. Estynnwch y manau hynny os bydd angen. **Sylwch y caiff y Ffurflen hon ei chyhoeddi ar-lein.**

1. Strwythur y Rhaglen

Mae'r rhaglen wedi ei strwythuro'n briodol er mwyn cyflawni ei nodau a'i chanlyniadau dysgu, ac mae'r graddedigion yn meddu ar wybodaeth sylweddol am yr iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth, ac ar ystod eang o sgiliau dadansoddi a chyflwyno'n ysgrifenedig ac ar lafar. Mae'r pwyslais ar gywirdeb mynegiant ac ymdrechion y staff i godi safonau trwy arweiniad cyson yn ganmoladwy iawn. Dysgir myfyrwyr yr ail flwyddyn ar wahân mewn rhai modiwlau sy'n canolbwyntio ar sgiliau astudio a gloywi iaith yn arbennig, ac mae'n amlwg bod y rheini'n gosod seiliau cadarn ar gyfer gwaith y flwyddyn olaf. Mae dysgu myfyrwyr yr ail flwyddyn a'r drydedd gyda'i gilydd yn fodd i gynnig dewis helaeth o fodiwlau arbenigol, ac mae'r pwysoli sydd ar farciau'r flwyddyn olaf yn sicrhau nad oes neb dan anfantais yn sgil hynny. At ei gilydd mae'r rhaglen yn gydlynus ac yn gytbwys, gyda sylw priodol i bob cyfnod a modiwlau dewisol blaengar sy'n caniatáu i fyfyrwyr archwilio agweddau neilltuol. Rhoddir cryn bwyslais ar sefyllfa gyfoes y Gymraeg mewn cyd-destun eang. Cyfoethogir y dysgu mewn nifer o fodiwlau gan arbenigedd ymchwil y staff, fel y gwelir yn enwedig yn y traethodau estynedig ar gyfer 'Blas ar Ymchwil' ac 'Ymchwilio Estynedig', lle y gwelais enghreifftiau o waith gwirioneddol wych.

2. Safonau Academaidd

Mae'r safonau academiaidd yn gyson â'r datganiadau meincnodi ar gyfer gradd yn y Gymraeg, ac maent yn cymharu'n dda iawn â safonau rhaglenni tebyg mewn sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae ansawdd iaith y myfyrwyr yn dda iawn ar y cyfan, ac mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n gywir ac yn eglur. Dengys eu gwaith ôl darllen eang, a sgiliau dadansoddol a beirniadol o safon uchel. Mae'r adborth manwl ac adeiladol ar bob darn o waith yn ganmoladwy iawn. Mae'n amlwg bod y gwaith dysgu gan staff yr Ysgol yn effeithiol iawn ac yn ysbrydoli llawer o'r myfyrwyr i gyflawni gwaith gwreiddiol a gwerthfawr.

3. Y Broses Asesu

Defnyddir dulliau asesu amrywiol er mwyn mesur cyraeddiadau'r myfyrwyr yn erbyn canlyniadau dysgu'r rhaglen, gyda chydbwysedd rhwng arholiadau, profion dosbarth a gwaith cwrs. Mae'r cwestiynau traethawd ac arholiad yn heriol ac yn rhoi digon o gyfle i fyfyrwyr arddangos eu gwybodaeth a'u gallu dadansoddol. Rhoddir lle priodol i arholiadau llafar ac ymarferion iaith amrywiol er mwyn asesu a meithrin sgiliau iaith y myfyrwyr. Dosbarthwyd y dyfarniadau'n ofalus ar sail meini prawf a chynlluniau marcio manwl, ac mae safonau'r asesu'n gyson ar draws y rhaglen. Roedd y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau yn glir bob tro. Cynhaliwyd y prosesau arholi ac asesu yn gwbl deg ac yn unol â pholisïau a rheoliadau'r Brifysgol.

4. Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Mae'r safonau eleni yn gyson â'r hyn a welais dros y tair blynedd diwethaf. Hon, efallai, yw'r flwyddyn orau o'r pedair a welais i, nid o reidrwydd o ran cyraeddiadau'r myfyrwyr ar y brig, ond o ran safonau trwch y dosbarth.

5. Gweithgarwch Paratoi / Sefydlu (i Arholwyr Allanol newydd yn unig)

6. Ymarfer Nodedig a'i Wella

Adborth ar arholiadau yn ogystal ag ar draethodau; mae'n amlwg bod hyn wedi cyfrannu at wella perfformiad y myfyrwyr.

7. Trosolwg o'r Penodiad (i Arholwyr Allanol sy'n ymddeol, yn unig)

Yn ystod y pedair blynedd y bûm i'n arholwr yng Nghaerdydd rwyf wedi gweld tystiolaeth gyson o ddysgu trylwyr a heriol ac asesu manwl a chytbwys. Mae diddordebau ymchwil y staff yn cyfoethogi'r dysgu ac yn ysbrydoli'r myfyrwyr gorau i gynhyrchu gwaith gwreiddiol ac i fynd ymlaen i wneud ymchwil bellach. Braff yw gweld y staff yn meithrin uchelgais ymhlith y myfyrwyr. Mae rhaglen y radd yn cyfuno pynciau traddodiadol a blaengar, ac anogir ymagwedd beirniadol a meddwl annibynnol ym mhob modiwl. Rhoddir pwyslais priodol ar gywirdeb iaith, ac mae llwyddiant yr ymdrechion i godi safonau i'w weld yn y cynnydd rhwng yr ail flwyddyn a'r drydedd. Mae'r profiad o arholi yng Nghaerdydd wedi bod yn un pleserus a chalonogol, a charwn ddiolch i staff Ysgol y Gymraeg am eu cydweithrediad a'u llongyfarch ar eu gwaith clodwiw.

8. Rhestr Wirio'r Adroddiad Blynyddol

Cynhwyswch sylwadau priodol yn Adrannau 1-7 uchod ar gyfer unrhyw ateb 'x'.

		✓	x	Ddim yn gymwys
Gwybodaeth am y Rhaglen/Cwrs				
8.1	A gawsoch chi ddigon o wybodaeth am gynnwys, canlyniadau dysgu ac asesiadau'r Rhaglen?	✓		
8.2	A gawsoch chi gais i roi'ch sylwadau ar unrhyw newid i'r asesu ar y Rhaglen?			✓
Papurau Cwestiwn Drafft yr Arholiadau				
8.3	A ofynnwyd i chi gymeradwyo'r holl bapurau arholiad a oedd yn cyfrannu i'r dyfarniad terfynol?	✓		
8.4	A oedd natur, rychwant a lefel y cwestiynau yn foddhaol?	✓		
8.5	A wnaed trefniadau addas i ystyried eich sylwadau?	✓		
Marcio'r Sgriptiau Arholiad				
8.6	A gawsoch chi ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?	✓		
8.7	A oedd safon gyffredinol a chysondeb y marcio yn briodol?	✓		
8.8	A farciwyd y sgriptiau mewn ffordd a'ch galluogai chi i weld y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau a roddwyd?	✓		
8.9	A oeddech chi'n fodlon ar safon a chysondeb y marcio gan yr arholwyr mewnol?	✓		
8.10	Yn eich barn chi, a gawsoch chi gyfle i astudio croestoriad digonol o'r gwaith a wnaed gan yr ymgeiswyr ac a gyfrannodd at yr asesiad terfynol?	✓		
Gwaith Cwrs ac Aseidiadau Ymarferol				
8.11	A oedd y dewis o waith cwrs a/neu aseidiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.12	A gawsoch chi weld sampl briodol o'r gwaith cwrs a/neu aseidiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.13	A oedd dull yr asesu, a'i safon gyffredinol, yn briodol?	✓		
8.14	A gaiff y myfyrwyr ddigon o adborth ar eu gwaith asesedig?	✓		
Archwiliadau Clinigol (os ydynt yn gymwys)				
8.15	A wnaed trefniadau boddhaol i gynnal aseidiadau clinigol?			✓
Samplu Gwaith				
8.16	A gawsoch chi ddigon o amser i ystyried samplau o'r gwaith asesedig?	✓		
Cyfarfod y Bwrdd Arholi				
8.17	A oeddech chi'n gallu dod i'r cyfarfod o'r Bwrdd Arholi?	✓		
8.18	A gafodd y Bwrdd Arholi ei gynnal yn briodol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig ac mewn ffordd a oedd yn eich bodloni chi?	✓		
8.19	Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod cyfraniad cynhyrchiol yr Arholwyr Allanol at y broses asesu ac yn enwedig at waith y Bwrdd Arholi. A gawsoch chi ddigon o gyfle i drafod y Rhaglen, ac unrhyw	✓		

		✓	✗	Ddim yn gymwys
	bryderon na chawsant eu datrys, gyda'r Bwrdd Arholi neu ei swyddogion?			
Y Cyfarfod o'r Cyd-Fwrdd Arholi (os yw'n gymwys)				
8.20	A ddaethoch chi i Fwrdd Arholi Cyfun (h.y. un a alwyd i ystyried dyfarnu graddau cydanrhydedd)?		✓	
8.21	Os daethoch, a gawsoch chi wybod am y gweithdrefnau a'r confensiynau ar gyfer dyfarnu graddau cydanrhydedd?			
8.22	A gynhaliwyd y Bwrdd Arholi Cyfun yn unol â'i reolau?			

Anfonwch yr adroddiad hwn yn ôl, yn fformat Microsoft Word os gallwch chi, drwy e-bost i:

ExternalExaminers@caerdydd.ac.uk

Dylech chi anfon eich ffurflen hawlio ffioedd a threuliau yn electronig i'r cyfeiriad e-bost uchod neu ar ffurf copi caled at:

Clive Brown, Swyddog y Gofrestrfa, Y Gofrestrfa a Gwasanaethau Academaidd,
Prifysgol Caerdydd, Tŷ McKenzie, 30-36 Newport Road, Caerdydd, CF24 0DE